



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



**Difftheria, tetanws,
pertwsis, polio,
Hib a hepatitis B**

**brechiad i fabanod
a phlant**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

lechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Mae'r daflen yma'n dweud wrthy ch chi am y brechiad DTaP/IPV/Hib/HepB. Mae'r brechiad yma'n cael ei adnabod hefyd fel y brechiad 6-mewn-1, gan ei fod yn amddiffyn rhag chwe afiechyd – difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio, Haemophilus influenzae math b (Hib) a hepatitis B (HepB).





Yn erbyn beth mae'r brechiad yn amddiffyn?

Difftheria

Mae difftheria yn afiechyd difrifol sydd fel arfer yn cychwyn gyda dolur gwddf ac sy'n gallu arwain at broblemau anadlu yn gyflym iawn. Mae'n gallu niweidio'r galon a'r system nerfol ac, mewn achosion difrifol, mae'n gallu lladd. Cyn i frechiad difftheria gael ei gyflwyno yn y DU, roedd hyd at 70,000 o achosion o ddifftheria a thua 5,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae posib i ddifftheria gael ei ledaenu o berson i berson drwy gysylltiad agos.

Tetanws

Afiechyd yw tetanws sy'n effeithio ar y system nerfol. Mae'n achosi gwingo yn y cyhyrau a phroblemau anadlu ac mae'n gallu lladd. Caiff ei achosi pan fydd germau a geir mewn pridd a thail yn mynd i mewn i'r corff drwy friwiau neu losgiadau. Nid oes posib trosglwyddo tetanws o berson i berson.

Pertwsis (y pas)

Mae'r pas yn afiechyd sy'n gallu achosi pyliau hir o besychu a thagu, gan ei gwneud yn anodd anadlu. Gall bara am hyd at 10 wythnos, a babanod dan flwydd oed sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae'r afiechyd yn un difrifol iawn ac mae'n gallu lladd.

Cyn i frechiad y pas gael ei gyflwyno, roedd 120,000 o achosion yn cael eu cofnodi bob blwyddyn yn y DU ar gyfartaledd, a bu farw 92 o blant yn y flwyddyn cyn cyflwyno'r brechiad. Mae'r pas fel arfer yn cael ei ledaenu drwy besychu a thisian.

Polio

Feirws yw polio sy'n gallu ymosod ar y system nerfol a gall achosi parlys parhaol yn y cyhyrau. Os yw'n effeithio ar gyhyrau'r frest neu'r ymennydd, mae'n gallu lladd.

Cyn i frechiad polio gael ei gyflwyno, roedd cymaint ag 8,000 o achosion o polio yn y DU mewn blynyddoedd epidemig. Caiff polio ei ledaenu yn bennaf drwy lyncu deunydd sy'n cynnwys y feirws.

Hepatitis B

Feirws yw hepatitis B sy'n heintio'r iau (afu) a gall arwain at glefyd difrifol ar yr iau. Mae tua 250 miliwn o bobl wedi'u heintio â hepatitis B yn y byd ar unrhyw un adeg. Caiff tua 600 i 800 o achosion newydd eu cofnodi yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Mae tua 30 o achosion newydd yng Nghymru bob blwyddyn, ond bydd llawer mwy o bobl yn cario'r feirws yn eu gwaed a'u iau.

Mae'r feirws hepatitis B i'w gael yng ngwaed a rhai o hylifau corfforol eraill pobl sydd wedi'u heintio.

Afiechyd Hib (*Haemophilus influenzae* math b)

Haint yw Hib sy'n cael ei achosi gan y bacteria *Haemophilus influenzae* math b. Mae'n gallu arwain at nifer o wahanol fathau o salwch difrifol, fel gwenwyn gwaed (septicemia), haint ar yr ysgyfaint (niwmonia) a llid yr ymennydd (haint ar leinin yr ymennydd). Mae'r salwch sy'n cael ei achosi gan Hib yn gallu lladd os na chaiff ei drin yn gyflym.

Cyn i frechiad Hib gael ei gyflwyno, roedd tua 800 o achosion o Hib ymhlith plant bach bob blwyddyn yn y DU. Gall y bacteria ledaenu yn yr aer o beswch a thisian pobl eraill. Dim ond rhag y math o lid yr ymennydd a achosir gan facteria *Haemophilus influenzae* math b mae brechiad Hib yn amddiffyn. Nid yw'n amddiffyn rhag unrhyw fathau eraill o lid yr ymennydd, ac felly mae'n bwysig o hyd eich bod yn gwybod beth yw arwyddion a symptomau'r afiechyd.



Gall y symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac efallai na fydd rhai yn ymddangos o gwbl. Edrychwch ar y lluniau isod am symptomau.

Babanod a phlant bach



Tymheredd uchel, dwylo a thraed oer



Gwrthod bwyd a chwydu



Cwynfanllyd, ddim yn hoffi i chi afael ynddynt



Cysglyd, llipa, ddim yn ymateb



Anadlu'n gyflym neu riddfan



Croen gwelw gyda darnau coch. Smotiau neu frech (edrychwch ar y prawf gwydr)



Crïo'n anarferol, cwyno



Y ffontanél (man meddal) yn dynn ac wedi chwyddo



Gwddw stiff, ddim yn hoffi goleuadau llachar



Ffitiau

Plant ac oedolion



Tymheredd uchel, dwylo a thraed oer



Chwydu



Cysglyd, anodd eu deffro



Dryslyd a blin



Poen difrifol yn y cyhyrau



Croen gwelw gyda darnau coch. Smotiau neu frech (edrychwch ar y prawf gwydr)



Cur pen difrifol



Gwddw stiff



Ddim yn hoffi golau llachar



Ffitiau

Ffynhonnell: © meningitisnow.org

Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn amau llid yr ymennydd?

Os bydd rhywun yn sâl ac yn gwaethygu, peidiwch ag aros nes bydd brech, gall y symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac ni fydd rhai'n ymddangos o gwbl. Gofynnwch am gymorth meddygol ar frys. Os nad ydych chi'n gallu cysylltu â'ch meddyg neu os ydych chi'n dal i bryderu ar ôl i chi gael cyngor, dilynwch eich greddf ac ewch i adran frys eich ysbyty agosaf.



Ffynhonnell: © meningitisnow.org

Y prawf gwydr

- Pwyswch ochr gwydr yfed clir yn gadarn yn erbyn y croen.
- Efallai y bydd smotiau neu frech, neu'r ddau, yn pylu i ddechrau.
- Daliwch i edrych ar y croen.
- Mae tymheredd uchel a smotiau neu frech, neu'r ddau, sydd ddim yn pylu dan bwysau yn argyfwng meddygol.
- Os yw eich plentyn yn sâl ac yn gwaethygu, rhaid cael help meddygol ar unwaith.
- Ar groen tywyll, gall y smotiau neu'r frech fod yn fwy anodd eu gweld.

Pryd bydd y brechiad 6-mewn-1 yn cael ei gynnis?

Cynigir y brechiad hwn i'ch plentyn pan fydd yn ddau, tri a phedwar mis oed.

Sut byddaf yn gwybod ei bod yn bryd i fy mhientyn gael ei frechiadau?

Anfonir apwyntiad at blant i gael eu brechiad 6-mewn-1 pan fyddant wedi cyrraedd yr oedran priodol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd a chanolfannau iechyd yn cynnal clinigau brechu neu glinigau babanod arbennig.

Beth sy'n digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd y nyrs neu'r meddyg yn egluro pam mae angen y brechiadau ac yn ateb eich cwestiynau. Gyda babanod, rhoddir y brechiad drwy bigiad yn y glun. Gyda phlant dros 12 mis oed, rhoddir pigiadau fel rheol yn rhan uchaf y fraich.

A fydd posib rhoi'r brechiad os bydd fy mhientyn yn sâl ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os mai mân salwch, heb dymheredd uchel, sydd gan eich plentyn, fel annwyd, dylai gael ei frechu fel arfer. Os yw eich plentyn yn sâl gyda thymheredd uchel ar y diwrnod mae i fod i gael y brechiad, gohiriwch y brechiad nes bydd wedi gwella.



Oes unrhyw resymau eraill pam na ddylid rhoi'r brechiad?

Prin iawn yw'r rhesymau pam na ellir brechu plant. Ni ddylid rhoi'r brechiad hwn i blant sydd wedi cael adwaith difrifol (bygythiad i fywyd) i ddos blaenorol o'r brechiad neu unrhyw gynhwysyn yn y brechiad.

Os oes gan eich plentyn:

- anhwylder gwaedu (er enghraifft, hemoffilia, pan nad yw gwaed y plentyn yn ceulo yn iawn), neu
- os yw wedi cael ffit nad yw'n gysylltiedig â thymheredd uchel,

siaradwch â'ch meddyg, nyrs y feddygfa neu'r ymwelydd iechyd cyn i'ch plentyn gael unrhyw frechiad.

Cafodd fy mabi ei eni'n gynnar. Pryd dylai babanod a gafodd eu geni'n gynnar gael eu brechu?

Efallai y bydd babanod a gafodd eu geni'n gynnar mewn mwy o berygl o ddal haint. Dylent ddechrau eu brechiadau ddau fis ar ôl iddynt gael eu geni, waeth pa mor fuan y ganwyd hwy.

Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad ymlaen llaw os na fyddwch yn medru bod yno. Os byddwch yn colli'r apwyntiad neu os bydd rhaid i chi ohirio'r brechiad, gwnewch apwyntiad newydd cyn gynted â phosib. Gellir rhoi'r brechiad o hyd, ond bydd eich plentyn heb amddiffyniad am gyfnod hirach.



Cofiwch ei bod yn bwysig cael y rhan fwyaf o frechiadau sydd wedi'u colli. Os yw eich plentyn wedi colli brechiad ac os yw'n hŷn na'r oedran a argymhellir, siaradwch â'ch meddyg teulu, nyrs y feddygfa neu'r ymwelydd iechyd.

Oes gan y brechiad unrhyw sgil-effeithiau?

Mae miliynau lawer o ddosys o'r brechiad wedi cael eu rhoi ac mae ei record diogelwch yn dda iawn. Gall plant weithiau gael coes neu fraich boenus lle cafodd y pigiad ei roi. Efallai y bydd rhai'n datblygu lwmp bychan lle cafodd y nodwydd ei rhoi i mewn. Mae hyn yn normal ac efallai y bydd yn para am rai wythnosau. Nid oes angen unrhyw driniaeth ar gyfer hyn. Efallai hefyd y bydd yn cael tymheredd uwch (twymyn) dros 38°C, bydd yn anesmwyth o bosib ac efallai na fydd eisiau llawer o fwyd. Os oes gan eich plentyn dymheredd uchel ac os yw'n ymddangos yn sâl, cadwch ef yn oer drwy:

- sicrhau nad oes ganddo ormod o haenau o ddillad neu flancedi drosto, a
- rhoi digon o ddiodydd oer iddo.

Efallai y bydd dos o hylif paracetamol o'r cryfder cywir yn helpu i ostwng tymheredd eich plentyn. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus iawn. Efallai y bydd angen i chi roi dos arall bedair i chwe awr yn ddiweddarach.



Os byddwch yn poeni am eich plentyn ar ôl y brechiad, dylech siarad â'ch ymwelydd iechyd, eich meddyg neu nyrs y feddygfa neu ffonio GIG 111 Cymru ar 0845 4647 neu 111 os yw ar gael yn eich ardal chi.

Oes raid i fy mhlentyn gael ei frechu?

Yn y DU, gall rhieni benderfynu a ydynt am i'w plant gael eu brechu ai peidio. Argymhellir eu bod yn cael eu brechu gan fod hyn yn amddiffyn eich plentyn rhag afiechydon difrifol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu lladd. Ledled y byd erbyn hyn, mae llawer o blant yn cael eu hamddiffyn drwy roi brechiadau iddynt yn rheolaidd. Oherwydd hyn, mae'n bosib y bydd rhai o afiechydon mwyaf difrifol y byd yn diflannu cyn hir.



Ble mae cael rhagor o wybodaeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth, gallwch edrych ar **111.wales.nhs.uk**, siarad â'ch meddyg neu nyrs neu ffonio **GIG 111 Cymru**.

Os nad yw **111** ar gael yn eich ardal chi, ffoniwch **0845 46 47**. Mae galwadau o linellau tir a ffonau symudol yn costio 2c y funud (a ffi arferol darparwr eich ffôn).

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y brechiad, gan gynnwys cynhwysion y brechiad a sgil-effeithiau posib, yn **www.medicines.org.uk/emc**. Bydd rhaid i chi roi enw'r brechiad (Infanrix hexa) yn y bocs chwilio. Gallwch hefyd weld y daflen wybodaeth i gleifion ar-lein.

Mae mwy o wybodaeth am y brechiad 6-mewn-1 (DtaP/IPV/Hib/HepB) ar gael yn: **111.wales.nhs.uk/livewell/vaccinations**

Mae amserlen sy'n dangos pa frechiadau a gynigir i bawb yng Nghymru ar gael yn **111.wales.nhs.uk/pdfs/adultschedule.pdf**

I archebu mwy o gopiâu o'r daflen hon, ewch i: **www.iechydscyhoedduscymru.org/adnoddau-gwybodaeth-iechyd**

I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i **111.wales.nhs.uk/lifestylewellbeing/yourinfoyourrights**